# ATODIAD 1: BETH YW TROED YN Y DRWS (CASNEWYDD)?

## EGWYDDORION, CYFLWYNO, ALLBYNNAU A CHANLYNIADAU

### 1) EGWYDDORION & GWERTHOEDD TYYD

- **Cynhwysol:** Arweinir TyyD gan gynhwysiant
- **Gwahanol:** Mae gwahaniaeth yn cael ei groesawu - mae pawb yn wahanol
- **Gwerthfawr:** Mae pob person a sefydliad sy'n ymwneud â Troed yn y Drws yn werthfawr
- **Cydweithio:** Gweithio ar draws partneriaid i ddatblygu datrysiadau
- **Parch:** Parchu a chydnabod pob her a chyfyngiadau partneriaid
- **Ffydd:** Adeiladu ffydd ar draws partneriaethau a chymunedau
- **Ymrwymo:** Ymrwymo i gynnig cefnogaeth benodol, hir-dymor
- **Cyfrifoldeb:** Annogir cyfranogwyr i berchen eu datblygiad eu hunain
- **Gwybodus:** Gwybodus am weithgaredd y sector a'r gymuned a rhannu'r hyn a ddysgir
- **Arloesol:** Gwneud pethau'n wahanol gan dreialu dulliau gwahanol o weithio

### 2) CYFLWYNO TYYD

- Mesurir llwyddiant ac allbynnau trwy ystod o fesurau meintiol ac ansoddol
- Gweithio gydag arbenigwyr y diwydiant a chyfranogwyr i gyflwyno gweithgaredd sy'n berthnasol i'r prinder sgiliau sy'n bodoli yn y sector
- Datblygu rhaglen o weithgareddau sy'n amrywio o sesiynau blasu, 1-2 ddiwrnod o weithdai ar-lein, i leoliadau gwaith hirach er mwyn cefnogi'r prentisiaid ar leoliad am 6 mis
- Nodi heriau y gall unigolion, cymunedau a'r sector cynhyrchu eu hwynebu a chynnig cymorth ymarferol ac ariannol dros y tymor hir
- Hyfforddiant ar ymwybyddiaeth am y diwydiant a gyrfaoedd, ac arweiniad ymarferol er mwyn paratoi at weithio yn y diwydiant sgrîn
- Amlygu a datblygu hyder y cyfranogwyr
- Cynnig cefnogaeth a datblygiad yn y tymor hir
- Defnyddio dull recriwtio mor lleol â phosib, gan ganolbwyntio ar y gymuned

### 3) GYDA PHWY YDYM NI'N GWEITHIO?

- Mae Troed yn y Drws yn agored i unrhyw ystod oedran (mae targedau UKCRF yn canolbwyntio ar y rhai sy'n 'economaidd anweithgar')
- Defnyddio dull o hunanwerthuso, dan arweiniad, a bod yn agored i ddeall a theilwra'r cymorth gorau ar gyfer y cyfranogwyr er mwyn sefydlu ar ba lefel mae unigolion yn gweithredu

### 4) SUT YDYM NI'N ADNABOD BETH YW'R CYMORTH CYWIR AR GYFER Y CYFRANOGWYR?

- Ymgymerir â recriwtio a llunio rhestr fer gyda phartneriaid cymunedol a'r partneriaid yn y diwydiant, gan nodi unryw faterion a chymorth perthnasol
- Mae'r dyddiau recriwtio a'r gweithdai yn amgylcheddau hygyrch, agored, croesawgar nad ydynt yn hierarchaidd

| | |
|---|---|
| • Defnyddir i asesu lefel eu gwybodaeth, profiad, sgiliau, ac addysg a theilwra eu taith drwy'r rhaglen<br>• bydd hyn yn berthnasol i'r haenau o ran parodrwydd rydym wedi penderfynu arnynt:<br>a) Dim gwybodaeth, profiad, sgiliau nag addysg sy'n berthnasol i'r diwydiannau sgrîn<br>b) Rhywfaint o wybodaeth, profiad, sgiliau neu addysg sy'n berthnasol i'r diwydiannau sgrîn<br>c) Sgiliau trosglwyddadwy sy'n berthnasol i yrfa yn y sector sgrîn ac sydd angen arweiniad a datblygiad<br>d) Rhywfaint o brofiad, sgiliau neu addysg blaenorol sy'n uniongyrchol berthnasol i yrfa yn y sector sgrîn<br><br>• Rydym hefyd yn gwerthuso lefelau hyder, y cymorth sydd ei angen, ac anghenion mynediad o'r cychwyn cyntaf | • Mae'r recriwtio a'r canfyddiadau yn cael eu datblygu ar y cyd rhwng y partneriaid yn y diwydiant a'r partneriaid cymunedol<br>• Disgwylir y bydd y cyfranogwyr yn cael eu cefnogi a'u harwain tuag at y canfyddiadau cywir<br>• Mewn 80% o achosion ni fydd cyfranogwyr yn barod ar gyfer mynd i'r gweithle ac felly mae canlyniadau caled (economaidd, rhifol) a chanlyniadau meddal pwysig (cynyddu hyder, parodrwydd i weithio ac uchelgais)<br>• Mae amlygu ac adnabod llwybrau priodol, gan gynnwys cymorth o ran gyrfaoedd, addysg, datblygu sgiliau a chyrsiau eraill, fel y bo'n briodol i'r cyfranogwyr o ran canlyniadau, wedi'u hymgorffori yn y rhaglen. |

## SUT MAE HYN YN GWEDDU I BROSIECT CRONFA ADENWYDDU CYMUNEDOL Y DU?

Fel y mae'r enw'n awgrymu, mae'r gronfa yn canolbwyntio ar ddatblygu materion newydd sy'n ymwneud â chyflogaeth yn y diwydiant, i uwchsgilio cymunedau sydd â lefelau uchel o amddifadedd, ac i gysylltu'r diwydiant â'r cymunedau. Mae Ffilm Cymru Wales wedi gweithio gyda chymunedau a sefydliadau yn y sector sgrîn yng Nghymru ers deng mlynedd bellach ac felly wedi casglu gwybodaeth y gallant ei rannu yn y maes hwn.

Mae hon yn rhaglen beilot, rhagflaenydd i'r gronfa ffyniant a rennir yr hoffem wneud cais amdani fel consortiwm. Wrth gwrs, rydym wedi ymrwymo i gyflawni a chyrraedd targedau, ond rhan fawr o'r gweithgaredd yma rhwng rwan a mis Mehefin yw sefydlu beth sy'n gweithio, beth sydd ddim yn gweithio, a sut y gallwn wella.

Mae hwn yn brosiect a ariennir sydd â phroffil uchel, ac mae gennym gyfle i ehangu'r gwaith hwn yn bellach ledled Cymru a derbyn cyllid sy'n caniatáu inni gyflawni hyn yn y sector sgrîn.

## RHAGDYBIAETHAU SY'N BODOLI YNG NGHAIS YR UKCR

- Mae cymunedau'n awyddus i ddatblygu partneriaid gyda'r diwydiant er mwyn cynnig cyfleoedd i'r bobl sy'n gweithio gyda nhw
- Mae'r diwydiant yn awyddus i ddatblygu partneriaethau gyda'r cymunedau i sicrhau bod y sector yn agored ac fwy amrywiol
- Mae pob parti'n awyddus i sefydlu a datblygu partneriaethau tymor-hir

- Mae gwahanol amcanion gan bob partner
- Mae gan pob partner sialensiau gwahanol i'w goresgyn yn eu gwaith
- Mae pob partner yn awyddus i ddatblygu a pharhau â phartneriaethau cynaliadwy gyda Ffilm Cymru er mwyn parhau â'r gwaith hwn dros gyfnod hirach.

## YR HYN SYDD ANGEN I NI EI GYFLAWNI AR Y CYD

- Mae gennym y dasg o weithio gydag unigolion economaidd anweithgar i ddarparu ystod o ddatrysiadau hyfforddi sydd wedi'u teilwra yn arbennig ar gyfer anghenion y rhai rydym yn gweithio gyda nhw (3, uchod). Mae Troed yn y Drws wedi bod yn gweithredu yng Nghasnewydd ers 2016 ac rydym wedi dysgu, o brofiad, bod cydweithio â phartneriaid wedi darparu'r sylfaen orau i sicrhau canlyniadau llwyddiannus. Mae hwn yn gyfle cyffrous i ddarganfod talent newydd ac i weithio gyda chymunedau yng Nghasnewydd i wella eu gwybodaeth a'u sgiliau yn y Sector Sgrîn yng Nghymru.
- Mae angen i ni ddarparu hyfforddiant a chynnig chyflwyniad fydd yn paratoi pobl ar gyfer gweithio yn y diwydiant, yn unol â'r targedau isod.

## SUT Y BYDDWN YN CYTUNDEBU HYN

**GWELER HEFYD: TARGEDAU & GWEITHGAREDD UKCRF FFIG 1.1**

**LLEIAFSWM Y MEINI PRAWF AR GYFER GWEITHGAREDD UKCRF (I'w gwblhau yn Ionawr 22 a'i rannu â phartneriaid)**
Mae gennym £240,000 (rhagwelir £40,000 fesul sefydliad i ddechrau) gan gynnig cyfran o hwn i sefydliadau all gyflwyno rhan o'r gweithgaredd yma. Rydym ar hyn o bryd yn datblygu canllawiau a meini prawf ond byddem, o leiaf, yn disgwyl eich cefnogi a gweithio mewn partneriaeth â chi i ddatblygu cynigion sy'n bodloni'r canlynol:

- Ymrwymiad i fynychu cyfres o weithdai personol ac ar-lein wedi'u hwyluso o fewn y prosiect gan sefydliad allanol a'u cynnal yng Nghasnewydd i gyd-ddatblygu gweithgaredd ac adnabod cyfleoedd, o Ionawr 22.
- Ymrwymiad i sicrhau gofod i gyd-ddylunio cynigion darparu hyfforddiant ar gyfer Chwefror 22.
- Bod yn berchen ar brofiad o ymwneud â chymunedau a chyd-ddatblygu gweithgaredd gyda'r diwydiant a phartneriaid cymunedol. Mae'n bosibl nad ydych wedi cadarnhau'r holl bartneriaid cymunedol / partneriaid y diwydiant hyd yma ond mae'n hanfodol eu henwi a gweithio ar draws y consortiwm, yn ogystal ag amlinellu swyddogaeth a chostau'r partneriaid cymunedol a phartneriaid y diwydiant mewn cyllideb ddangosol ar gyfer y gweithgaredd arfaethedig.
- Mae'n rhaid i'r gweithgaredd anelu at ddiwallu anghenion a gofynion holl aelodau'r consortiwm a chael eu hamlinellu yn nhermau canlyniadau yn y cynllun trosglwyddo.

**LLINELL AMSER A PHROSES**

| | |
|---|---|
| 230 o unigolion economaidd anweithgar, ac yn bennaf yng ngrwpiau A a B uchod | Disgwylir i'r gweithgaredd hwn ddigwydd rhwng Ionawr a Mai 2022 |
| 50 o hyfforddiant manylach i'r rhai yng ngrwpiau, B, C a D uchod | Disgwylir i'r gweithgaredd hwn ddigwydd rhwng Mawrth a chanol mis Mai, ond gall fod yn rhesymol ar unrhyw adeg, ar gytundeb |
| 20 o leoedd cyflogaeth i unigolion o grwpiau C a D uchod | Gellir sicrhau'r rhain ar unrhyw adeg yn ystod y rhaglen a gorau po gyntaf y gallwn weithio gyda chyflogwyr y diwydiant. |

- Datblygu partneriaid allanol a gweithdai darganfod (Ionawr a Chwefror)
- Hyfforddiant meddylfryd cynhwysol (Mai 2022)
- Datblygu Siarter Mynediad Teg y consortiwm (Ionawr-Mai)

RHAGFYR-IONAWR: Cyfarfod cyntaf y partneriaid a threfnu'r gweithgaredd

IONAWR-CHWEFROR: Gweithdai darganfod ac anelu at gwblhau'r cynlluniau cyflenwi

CHWEFROR 22: FFCW yn derbyn y cynllun cyflenwi a % o'r cyllid grant ymlaen llaw

CHWEFROR-MAI 22: Trosglwyddo'r Prosiect a'r Hyfforddiant a % o'r cyllid a'r Adroddiad Dros Dro - DECHRAU EBRILL

MEHEFIN 22: Trosglwyddo'r adroddiad terfynol a % o'r cyllid terfynol ar gyflwyno'r adroddiad

- GWERTHUSO'R RHAGLEN (Mawrth - Mehefin 22)
- FFYNIANT A RENNIR FEL CONSORTIWM YNG NGWANWYN 2022